

# **Mwy na geiriau:** Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Jasmine Thethi, Llenyddiaeth Saesneg a Sbaeneg.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Fy iaith gyntaf yw Saesneg. Yna dechreuais astudio Sbaeneg yn yr ysgol uwchradd a chael fy swyno gan y ffordd roedd yr iaith mor debyg ac eto mor wahanol i'r Saesneg.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Fe ges i fy magu mewn teulu dwyieithog (mae llawer o'r teulu'n siarad Punjabi i ryw raddau) ond dwi ddim yn ddwyieithog. Dwi wedi tyfu i fyny yn clywed pobl eraill yn siarad ieithoedd gwahanol, ond ches i erioed fy nysgu i'w siarad.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae deall iaith newydd wedi fy ngwneud i mor chwilfrydig i ddysgu am ddiwylliannau newydd ledled y byd. Dwi'n rhyfeddu at yr holl wahanol arferion a thraddodiadau sydd gan bobl.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   I fi, mae dysgu iaith wedi rhoi hyder i fi wneud pethau newydd, a chyfathrebu'n effeithiol gyda phobl eraill.

6. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Pan dwi'n gweld pethau wedi'u hysgrifennu i lawr, dwi bob amser yn synnu faint o eiriau dwi'n eu hadnabod. Bydda i'n dueddol o feddwl 'dwi ddim yn gwybod llawer o Sbaeneg' ac

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

wedyn bydda i'n gwylio fideo TikTok ac yn sylweddoli fy mod i'n gwybod mwy na dwi'n ei feddwl.

7. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Yn bersonol, dwi wir yn cael trafferth gyda gramadeg. Dwi'n dechrau dod i'w ddeall, ond mae wedi golygu llawer o ymarfer!

8. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
   *Echar agua al mar*. Mae'n golygu 's'dim pwynt' ond mae'n cyfieithu'n llythrennol i 'taflu dŵr yn y môr'. Bob tro dwi'n gweld y dywediad yma, galla i weld rhywun yn taflu cwpan fach o ddŵr i'r môr ac mae e'n gwneud i fi chwerthin!

9. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
   Bydden i wrth fy modd yn dysgu iaith sydd â gwyddor wahanol, fel Mandarin, ond dwi hefyd wedi ystyried dysgu Punjabi yn ddiweddar gan mai hon yw iaith fy nheulu.

10. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Roeddwn i'n ddigon ffodus i gyflwyno fy ngweithdai wyneb yn wyneb, a mynd i mewn i'r ysgolion a chwrdd â'r myfyrwyr. Fe wnaeth hyn fy atgoffa sut dechreuodd fy nhaith i gydag ieithoedd, a faint wnes i fwynhau fy ngwersi.

11. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Roeddwn i'n lwcus iawn yn yr ysgol oherwydd roedd gen i athro Sbaeneg anhygoel. Roedd hi mor frwdfrydig a bob amser yn gwneud Sbaeneg yn hwyl ac yn ddiddorol trwy chwarae gemau a gwrando ar gerddoriaeth. Oni bai amdani hi,

byddwn wedi rhoi'r gorau i Sbaeneg amser maith yn ôl a fyddwn i ddim yn ei hastudio yn y brifysgol nawr.

12. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
    Roeddwn i'n arfer gwylio LLWYTH o Dora the Explorer, sef rhaglen deledu oedd yn dysgu Sbaeneg sylfaenol i blant. Roedd gen i obsesiwn gyda'r sioe i'r pwynt fy mod wedi dysgu cyfrif i 10 yn Sbaeneg cyn i fi allu gwneud yn Saesneg (roedd fy rhieni wedi drysu'n llwyr am y peth). Dwi nawr yn gwneud gradd mewn Sbaeneg ac felly dwi'n meddwl bod Dora wedi cael effaith ddofn iawn arna i!

13. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
    Peidiwch poeni am wneud camgymeriadau. Dwi wedi bod yn astudio ieithoedd ers oesoedd a dwi dal i gael pethau'n anghywir. Ewch amdani a byddwch yn hyderus. Dyfal donc a dyr y garreg!

